# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Gorffennaf 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3616

# 13

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### Cwestiwn Brys

Dechreuodd yr eitem am 14.18

**David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y trafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â TATA Steel a Llywodraeth y DU yn dilyn cyhoeddi bwriad TATA i atal y broses o werthu ei weithfeydd gwneud dur yn y DU?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.39

## 3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth

Dechreuodd yr eitem am 14.53

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Yr Adolygiad Ymarfer Plant i Farwolaeth Dylan Seabridge

Dechreuodd yr eitem am 15.27

## 5 Datganiad gan yr Ysgrifennydd Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Cronfa Triniaethau Newydd

Dechreuodd yr eitem am 16.07

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Hunanwella'r System Addysg

Dechreuodd yr eitem am 16.39

## 7 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Moderneiddio Trafnidiaeth: y wybodaeth ddiweddaraf am Fasnachfraint Cymru a'r Gororau a'r Rhaglenni Metro

Dechreuodd yr eitem am 17.19

## 8 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Y Gymraeg

Dechreuodd yr eitem am 18.07

## 9 Datganiad gan y Gweinidog Sgiliau a Gwyddoniaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf ar Glwstwr Lled-ddargludyddion Cyfansawdd Cymru – bydd hyn yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig

Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig.

## 10 Dadl: Cyllideb Atodol Gyntaf 2016-17

Dechreuodd yr eitem am 18.44

**NDM6046 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 20.30, yn cymeradwyo'r Gyllideb Atodol Gyntaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17 a **osodwyd** yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ddydd Mawrth, 21 Mehefin 2016.

Troednodyn:

Yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20, mae'r Gyllideb Atodol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

i. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru;

ii. yr adnoddau y cytunwyd arnynt gan y Trysorlys ar gyfer cyllideb bloc Cymru yn y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;
iii. cysoniad rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer cyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau yr awdurdodir eu defnyddio yn y cynnig;
iv. cysoniad rhwng y symiau amcangyfrifol sydd i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau yr awdurdodir eu talu o'r Gronfa yn y cynnig; a
v. cysoniad rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau yr awdurdodir eu talu o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).

Rhoddwyd y wybodaeth ychwanegol a ganlyn i'r Aelodau:

- nodyn yn egluro'r prif newidiadau o'r cynlluniau blaenorol.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 11 Cyfnod pleidleisio

Nid oedd cyfnod pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 19.10

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 13 Gorffennaf 2016**